

SAFON RENTI A THALIADAU GWASANAETH 2020-2025

LLYWODRAETH CYMRU

1. Cyflwyniad

Mae tai cymdeithasol yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r llywodraeth. Gall tai o ansawdd da effeithio'n gadarnhaol ar iechyd, iechyd meddwl ac addysg. A dyna pam mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol ledled Cymru yn gyflym.

Gwnaeth yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy a gynhaliwyd yn 2018 nifer o argymhellion allweddol yn ymwneud â Pholisi Rhenti – a rhoddodd anghenion tenantiaid a fforddiadwyedd wrth wraidd eu hargymhellion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy, ac mae'r ddogfen hon yn nodi Safon Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth Tai Cymdeithasol (y Safon Renti a Thaliadau Gwasanaeth) y bydd angen i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â hi tan 2025. Cydnabyddir y bydd cael cytundeb hirdymor ar sut y gellir pennu rhenti cymdeithasol a thaliadau gwasanaeth bob blwyddyn yn rhoi sicrwydd i denantiaid am lefelau rhent, a hefyd i landlordiaid cymdeithasol, o ran cefnogi'r benthyca ariannol sydd ei angen arnynt i helpu i ddarparu mwy o dai fforddiadwy.

Er mwyn cydnabod y sefydlogrwydd a'r sicrwydd ychwanegol a ddarperir gan y safon hon ar renti, cytunwyd ar nifer o fentrau ar y cyd â'r sefydliadau cynrychiadol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru). Bydd y mentrau hynny'n dangos yr ymrwymiad a rennir ar gyfer adeiladu cartrefi ychwanegol, llunio cymunedau a chyfrannu at yr amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach. Amlinellir manylion y mentrau hynny yn rhan 3 o'r ddogfen.

Rhaid cael cydbwysedd clir rhwng buddiannau landlordiaid a phreswylwyr. Rhaid i fforddiadwyedd i denantiaid ystyried holl gostau byw mewn eiddo e.e. rhent, taliadau gwasanaeth a chostau ynni eiddo. Bydd disgwyl i landlordiaid ystyried y costau hynny wrth bennu rhenti bob blwyddyn. Fforddiadwyedd i denantiaid yw hanfod y Safon Renti a Thaliadau Gwasanaeth.

Mae **RHAN 1** o'r ddogfen hon yn amlinellu Safon Renti a Thaliadau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru (a adwaenir yn flaenorol fel y polisi rhenti) a'r set o reolau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw. Mae **RHAN 2** yn cynnwys y canllawiau cysylltiedig â'r safon a'r rheolau ac mae **RHAN 3** yn amlinellu'r mentrau ehangach y cytunwyd arnynt ar y cyd â'r sector ond nad yw'n rhan o'r safon.

RHAN 1 – SAFON A RHEOLAU RHENTI A THALIADAU GWASANAETH

Y Safon

Mae'r rhenti a'r taliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol ac i ddarpar denantiaid.

Rhaid i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru gydymffurfio.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod y Safon Renti Tai Cymdeithasol yn unol ag adran 111 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Deddf 2014). Rhaid i bob **Awdurdod Tai Lleol** yng Nghymru gydymffurfio â rheolau a chanllawiau Safon Renti a Thaliadau Gwasanaeth Tai Cymdeithasol. Mae'r rheolau a nodir yn unol ag adran 111 (3) (a) a (b) o Ddeddf 2014 a chyhoeddir canllawiau o dan adran 112 (1) (a) a (b).

Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi gosod safonau i'w bodloni gan **Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** (y Safonau Rheoleiddiol) o dan adran 33A o Ddeddf Tai 1996 (Deddf 1996). Rhaid i bob landlord cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio â rheolau a chanllawiau Safon Renti a Thaliadau Gwasanaeth Tai Cymdeithasol. Mae'r rheolau a nodir yn unol ag adran 33A (2A) o Ddeddf 1996 a chyhoeddir canllawiau o dan adran 33B (1) (a) a (b).

Mae'r safon (a'r polisi rhenti blaenorol) yn gymwys am gyfnod o 5 mlynedd o 6 Ebrill 2020-21 i 31 Mawrth 2024-2025 ac mae'n gymwys i bob "landlord cymdeithasol¹". Mae'n berthnasol i dai anghenion cyffredinol a thai gwarchod p'un a gafodd ei ariannu drwy grant neu gan landlordiaid eu hunain.

Y Rheolau - y mae angen cydymffurfio â nhw o dan Adran 111 (3) (a) a (b) o Ddeddf 2014 ac Adran 33A (2A) o Ddeddf 1996.

- CPI+1% yw'r **cynnydd mwyaf** a ganiateir mewn unrhyw flwyddyn ond **ni ddylid** ystyried bod CPI+1% yn gynnydd y dylai landlordiaid cymdeithasol ei weithredu'n awtomatig.
- Gall lefel y rhent ar gyfer tenantiaid unigol gael ei lleihau, ei rhewi, neu gall godi "hyd at £2 ychwanegol" yr wythnos, ar yr amod nad yw cyfanswm y cynnydd mewn incwm rhent y mae'r landlord cymdeithasol yn ei gael yn fwy na CPI+1%.
- Os bydd CPI y tu allan i'r ystod o "0% i 3%", Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am bennu'r cynnydd sy'n briodol i lefelau rhent ar gyfer y flwyddyn honno.

¹ Mae'r term "landlordiaid cymdeithasol" yn y ddogfen hon yn cyfeirio at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau tai lleol ac sydd wedi cadw eu stoc tai neu a allai agor cyfrif refeniw tai yn y dyfodol.

- Rhaid i landlordiaid cymdeithasol roi gwybod i Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol os oes pryderon ynghylch effaith y safon renti ar eu cynllun busnes, eu hyfywedd ariannol, neu eu gallu i gyflawni eu rhwymedigaethau i denantiaid a benthychwyr.
- Disgwylir i landlordiaid cymdeithasol **bennu taliadau gwasanaeth sy'n rhesymol ac yn fforddiadwy**. Mae'n ofynnol i landlordiaid adolygu taliadau gwasanaeth yn flynyddol, sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian i denantiaid a'u bod yn fforddiadwy. Mae'n ofynnol i landlordiaid restru eu taliadau gwasanaeth ar wahân i'r rhent er mwyn sicrhau tryloywder i denantiaid.
- Fel rhan o'u penderfyniad blynyddol ar lefel codiad/gostyngiad y rhent i'w gosod, dylai landlordiaid cymdeithasol wneud asesiad o arbedion cost, gwerth am arian a fforddiadwyedd i denantiaid. Dylai'r asesiad hwnnw gael ei drafod gan y Bwrdd/Cabinet/Cyngor a'i gynnwys yn y ffurflen fonitro hunanardystio yn **Atodiad B**.

Mae'r safon hon a'r rheolau cysylltiedig yn rhoi sicrwydd hirdymor i landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid ynghylch cynnydd mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth. Bydd yn caniatáu i landlordiaid cymdeithasol gynllunio'n effeithiol o ran eu rhaglenni benthyca a datblygu.

RHAN 2 – SAFON RENTI A THALIADAU GWASANAETH - CANLLAWIAU

Mae'r safon hon yn cynnig fframwaith ar gyfer rhenti a thaliadau gwasanaeth mewn perthynas â thai cymdeithasol sy'n berthnasol i bob landlord cymdeithasol. Mae hefyd yn adlewyrchu amrywiadau o ran maint, ansawdd a lleoliad stoc tai pob landlord.

Landlordiaid unigol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am bennu'r rhenti a'r taliadau gwasanaeth ar gyfer cartrefi unigol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Y rheswm am hynny yw bod materion lleol pwysig y mae angen i landlordiaid eu hystyried wrth bennu rhenti a thaliadau gwasanaeth ar gyfer cartrefi unigol, na ellir eu hadlewyrchu'n ddigonol drwy drefniant safonol ar gyfer rhenti a thaliadau gwasanaeth sy'n hollol ganolog.

Mae'r safon renti a thaliadau gwasanaeth yn berthnasol i'r holl anghenion cyffredinol a thai gwarchod a ariennir drwy raglenni Llywodraeth Cymru neu a ddarperir drwy adnoddau'r landlord ei hunan.

Ceir cyfeiriadau at eithriadau i'r safon yn **Atodiad A**.

1. Bandiau Rhent Targed

Mae'r Bandiau Rhent Targed wedi'u hatal am y tro yn dilyn trafodaethau â Chymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru oherwydd y tarfu ar gasglu data a achosir gan bandemig y coronafeirws. Penderfynir ar rôl y bandiau targed yn y dyfodol mewn cydweithrediad â'r sector wrth symud ymlaen.

2. Byngalos

Yn y polisi rhenti yn 2015 rhoddwyd ystyriaeth i sut y dylid trin byngalos. Felly casglwyd data i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael. Roedd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru wedi modelu'r wybodaeth honno gan ddefnyddio ystod o bwysoliadau, a'r casgliadau oedd nad oedd y pwysoliadau ychwanegol yn cynnig digon o hyblygrwydd ac y byddent yn cael effaith andwyol ar y polisi rhenti ar gyfer y rhan fwyaf o landlordiaid, ac felly nid yw'n fuddiol i'r sector drin byngalos ar wahân. **Mae'n werth nodi bod eisoes gan landlordiaid yr hyblygrwydd o dan y safon renti i benderfynu ar beth sy'n briodol i'w stoc a'u tenantiaid ac a ddylid codi rhent uwch ar gyfer byngalos.**

Cytunwyd felly, at ddibenion y safon hon ar gyfer rhenti a thaliadau gwasanaeth, y bydd tai a byngalos yn parhau i gael eu trin yr un fath â mathau eraill o dai.

3. Y dull ar gyfer codi lefelau rhent yn flynyddol

Yn ddarostyngedig i adran 5, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r safon bob 5 mlynedd. Bydd landlordiaid cymdeithasol yn cael gwybod am y cynnydd blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn cael cadarnhad o ffigur CPI mis Medi a gyhoeddir ym mis Hydref bob blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, os bydd y CPI yn disgyn yn is na'r ystod o 0% i 3%, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r newid priodol i lefelau'r rhenti i'w cymhwyso ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn unig.

4. Monitro'r Safon Renti a Thaliadau Gwasanaeth

Mae fforddiadwyedd wrth wraidd y safon hon ac felly mae disgwyliadau clir i aelodau Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol ddangos sut y byddent yn delio ag effaith newidiadau i renti a thaliadau gwasanaeth ar incwm eu tenantiaid. Bydd yn rhaid i landlordiaid cymdeithasol ddangos sut y maent yn lliniaru ac yn rheoli risgiau i incwm tenantiaid, a bydd y rhain yn cael eu monitro'n agos gan swyddogion.

Bydd angen cyflwyno ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror bob blwyddyn i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Safon. Bydd y ffurflen gyntaf yn cael ei dychwelyd ym mis Ebrill 2022 ac yna bob mis Chwefror wedi hynny. Mae'r ffurflenni ar dempled Llywodraeth Cymru yn **Atodiad B**.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r Safon, bydd angen cael sicrwydd ynghylch y meysydd canlynol o leiaf:

- Ymgysylltu ac ymgynghori effeithiol â thenantiaid gan gynnwys y fethodoleg a'r canlyniad/ymatebion.
- Mae dangos fforddiadwyedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer pennu rhenti a thaliadau am wasanaethau, ac felly mae angen i Fyrddau ac Aelodau Lleol roi sicrwydd nad yw eu taliadau'n achosi caledi ariannol i denantiaid.

- Yr opsiynau a ystyriwyd a'r rhesymeg dros y penderfyniad i osod rhent a chodi taliad gwasanaeth.
- Cofnod o'r adroddiad a'r cofnod/penderfyniad sy'n cymeradwyo'r penderfyniad i bennu lefel y rhent.
- Aseiad o arbedion cost a gynigir ar draws y sefydliad.

5. Diwygio

Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg, yn amodol ar ymgynghori, ddiwygio neu dynnu'n ôl y darpariaethau a nodir yn y Safon hon a'r canllawiau.

RHAN 3 – MENTRAU Y CYTUNWYD ARNYNT AR Y CYD

Fel y cytunwyd â Chartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel cyrff cynrychiadol, bydd pob landlord cymdeithasol yn:

- Cryfhau eu dulliau gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn cyfyngu gymaint â phosib ar unrhyw achosion o droi pobl allan o'u tai, a chyflawni cytundeb newydd i beidio â throi pobl allan i fod yn ddigartref;
- Cynnal arolwg safonol o fodlonrwydd tenantiaid a darparu data i'w cyhoeddi ar un wefan ganolog i gynorthwyo tenantiaid i graffu ar berfformiad landlordiaid a'i gymharu. Bydd canlyniadau'r arolwg cyntaf ar gael i'w cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2022 a'r arolygon dilynol i'w cynnal o leiaf bob dwy flynedd wedi hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu cwestiynau'r arolwg safonol a'r fethodoleg ofynnol;
- Adeiladu ar yr ymrwymiad i ddarparu cartrefi o ansawdd sy'n cydymffurfio â safon ansawdd tai newydd "WDQR 2021" ar draws pob deiliadaeth ar safleoedd sy'n gymwys i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Parhau i weithio tuag at ddelfryd lle mae pob tŷ newydd, beth bynnag yw'r ddeiliadaeth, yn cyrraedd safonau effeithlonrwydd ynni o ddim llai nag EPC A ar safleoedd sy'n gymwys i gael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Cysylltiadau Allweddol

Cynhyrchwyd y Safon hon ar gyfer Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth mewn cydweithrediad â Chartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Os bydd landlordiaid cymdeithasol o'r farn bod problemau o ran hyfywedd ariannol yn cael eu nodi, mae angen iddynt godi'r mater gyda'r canlynol:

Awdurdodau Lleol: housingqualitystandards@llyw.cymru

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig: HousingRegulation@llyw.cymru

ATODIAD A – Eiddo sydd wedi'u heithrio o'r Safon Renti Tai Cymdeithasol

Ni fydd y Safon hon ar gyfer Rhnti a Thaliadau Gwasanaeth Tai Cymdeithasol yn berthnasol i'r mathau canlynol o eiddo sy'n eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol neu sy'n cael eu rheoli ganddynt:

Tai Cymdeithasol Eraill

- tai gofal ychwanegol;
- tai eraill â chymorth;
- unrhyw unedau tai nad ydynt yn hunangynhwysol;

Tai Eraill Nad yw'n Dai Cymdeithasol

- tai a osodwyd ar lefelau rhent canolraddol;
- tai a osodwyd ar lefelau rhent y farchnad;
- rhanberchnogaeth, cymorth prynu, deiliadaeth hyblyg i'r henoed;
- eiddo amhreswyl;
- anheddau ar brydles sy'n cynnwys y rhai a brydlesir i gartrefu'r digartref dros dro;
- anheddau sy'n cael eu rheoli gan asiantaeth gosod tai cymdeithasol;
- eiddo lle mae'r Landlord Cymdeithasol wedi gwerthu'r lesddaliad (drwy'r hawl i brynu, yr hawl i gaffael neu fel arall) ond yn cadw'r rhydd-ddaliad;
- cartrefi gofal preswyl;
- cartrefi gofal nyrsio;
- eiddo buddsoddi preswyl;
- llety myfyrwyr;
- anheddau gwag sy'n aros i gael eu dymchwel neu eu gwaredu lle cafwyd cytundeb ffurfiol gan y Bwrdd/Cyngor;
- mathau arbenigol eraill o ddarpariaeth yn amodol ar gydsyniad Llywodraeth Cymru.

ATODIAD B – Templed Monitro Hunanardystio

Safon Renti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Ffurflen Fonitro Hunanardystio Flynyddol

Mae dwy ran i'r ffurflen hon, mae rhan un (gorfodol) yn cyfeirio at gydymffurfio â'r safon renti ac mae rhan dau (gwirfoddol) yn ymwneud â gwybodaeth sy'n ofynnol fel rhan o'r cytundeb rhentu ehangach y cytunwyd arno.

Mae'r ffurflen i'w llenwi gan bob landlord cymdeithasol.

- **Dychwelwch y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 28 Chwefror 2022 drwy e-bostio HousingQualityStandards@llyw.cymru**

Enw'r Landlord Cymdeithasol	
Rhif cofrestru Llywodraeth Cymru ar gyfer y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad cwblhau'r ffurflen	DD/MM/BBBB

RHAN UN (GORFODOL): Atebwch yr holl Gwestiynau canlynol sy'n ymwneud â'ch incwm rhent

Cwestiynau ar gyfer blwyddyn EBRILL 2021/22	
C1. Cadarnhewch gyfanswm y cynnydd canrannol a gafodd ei ddefnyddio i godi eich rhenti ym mis Ebrill 2021 a nifer y stoc ar 31 Mawrth 2021. <i>(Nodwch - Mae Safon Renti Llywodraeth Cymru yn caniatáu uchafswm o 1.5% (CPI+1%) ar gyfer 2021/22)</i>	
C2. Cadarnhewch na wnaeth lefel y rhent ar gyfer tenant unigol godi mwy na CPI+1% ynghyd â £2 ychwanegol.	
Cwestiynau ar gyfer blwyddyn EBRILL 2022/23	
C3. Nodwch yr incwm rhent blynyddol gros amcangyfrifedig ar gyfer 2022-23 mewn perthynas ag anghenion cyffredinol ac anheddau gwarchod hunangynhwysol yn seiliedig ar renti diwygiedig Ebrill 2022 a nifer y stoc ar 31 Mawrth 2022. <i>(Diffiniad o 'incwm rhent blynyddol gros amcangyfrifedig' yw'r incwm rhent yr ydych yn disgwyl ei dderbyn ar gyfer eich</i>	

Cwestiynau ar gyfer blwyddyn EBRILL 2021/22

portffolio cyfan o eiddo, gan gynnwys unrhyw adeiladau newydd yr ydych yn eu rhagweld yn ystod y flwyddyn, ni waeth a yw eiddo'n cael ei feddiannu neu'n wag)

C4. Cadarnhewch gyfanswm y cynnydd canrannol YR YDYCH yn BWRIADU ei ddefnyddio i godi eich rhenti ym mis Ebrill 2022.

C5. Cadarnhewch fod gennych bolisi rhentu a thâl gwasanaeth lleol ar waith.

C6: Amlinellwch y ffactorau a ystyriwyd gennych wrth asesu fforddiadwyedd pan fyddwch yn pennu eich rhenti a'ch taliadau gwasanaeth ar gyfer blwyddyn renti 2022/23. Dylech gynnwys manylion am sut yr oedd fforddiadwyedd i'ch tenantiaid yn cael ei ystyried a'r modd yr oedd hwnnw wedi dylanwadu ar y dull a gymerwyd.

Cyfyngwch eich ateb i 500 gair

C7: Amlinellwch y ffordd yr oedd tenantiaid yn cael eu cynnwys (ymgysylltu, ymgynghori ac adborth) a sut mae'r adborth a gafwyd wedi dylanwadu ar eich polisi pennu rhenti ar gyfer blwyddyn rhent 2022/23.

Cyfyngwch eich ateb i 500 gair

C8: Nodwch y dyddiad y gwnaeth neu y cadarnhaodd eich Bwrdd/Cyngor/Pwyllgor y penderfyniad terfynol ar eich rhent ar gyfer 2022/23.

DD/MM/BBBB

C9: Esboniwch sut mae eich asesiad blynyddol ar gostau gweithredu ac arbedion costau wedi effeithio ar eich penderfyniad i bennu rhenti ar gyfer Ebrill 2022/23.

Cyfyngwch eich ateb i 500 gair

C10: Nodwch unrhyw sylwadau eraill neu gallwch godi mater mewn perthynas â'ch ymarfer gosod rhenti ar gyfer Ebrill 2022/23.

Cyfyngwch eich ateb i 500 gair

NODWCH Y GALLWN OFYN AM RAGOR O WYBODAETH NEU EGLURHAD AR UNRHYW UN O'R MATERION UCHOD

RHAN DAU (GWIRFODDOL)

Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf am y mentrau canlynol y cytunwyd arnynt ar y cyd:

a) Rhoi terfyn ar bob achos o droi allan sy'n arwain at ddigartrefedd

C11: Cadarnhewch eich bod yn cryfhau eich dulliau gweithredu a gynlluniwyd i sicrhau eich bod yn lleihau'r holl achosion o droi allan ac yn cyflawni amcanion cytundeb newydd i beidio â throï tenantiaid allan sy'n arwain at ddigartrefedd.

C12: Os hoffech roi rhagor o fanylion, gwnewch hynny yma:

b) Cynnal arolwg safonedig o fodlonrwydd tenantiaid

C13: Cadarnhewch y byddwch yn cwblhau arolwg o fodlonrwydd tenantiaid, gan gynnwys y cwestiynau craidd, i'w gyflwyno erbyn 28 Chwefror 2022.

c) Safonau

C14: Cadarnhewch y bydd yr holl ddatblygiadau adeiladu newydd a ariennir gan Gyllid Cyfalaf Tai Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â safon ansawdd tai newydd "WDQR 2021" ar draws pob deiliadaeth.

d) EPC A

C15: Cadarnhewch y bydd yr holl adeiladau newydd a ariennir gan Gyllid Cyfalaf Tai Llywodraeth Cymru yn cyrraedd safon effeithlonrwydd ynni EPC A ac uwch.

Enw	
-----	--

Swydd	
-------	--

Rhaid i'r swyddog fod naill ai'n Swyddog Adran 151 ar gyfer Awdurdod Lleol neu'n Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Dyddiad	
---------	--

Dychwelwch eich ffurflen i: HousingQualityStandards@llyw.cymru erbyn 28 Chwefror 2022